Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

24 Mawrth 2021

**PARTH: AHGTAEM – Archwiliad o effeithiolrwydd yr Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gennyf i a'r Prif Gwnstabl Dros Dro, Claire Parmenter.

Bydd cyflwr proses Pennu Tasgau a Chydlynu'r Rhanbarth a'r Heddlu'n adlewyrchu chwe newid allweddol o'r cynllun cenedlaethol. Bydd y cyflwr bwriadedig yn y dyfodol yn cyflenwi:

- Asesiad gorfodi'r gyfraith cynhwysfawr o fygythiad, perygl a niwed o droseddau difrifol a throseddu trefnedig.
- Proses gyson ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a rheoli'r perygl gweithredol o droseddau difrifol a throseddu trefnedig, yn bennaf, grwpiau troseddu trefnedig, gwendidau ac unigolion â blaenoriaeth drwy'r tîm Asesu Bygythiad Troseddu Trefnedig Rhanbarthol.
- Pennu ymateb priodol i'r bygythiad a lleihau'r risg ar bob lefel.
- Asesiad gwybodus o allu a chapasiti'r system i ymateb i'r bygythiad, sy'n caniatáu ar gyfer ystwytho capasiti ar draws y wlad os oes angen.
- Pennu ymateb priodol i bennu tasgau a chydlynu gweithgarwch ar draws y system.
- Cymryd rhan weithredol mewn rheoli risg gweithredol ar draws y system a throsglwyddo hyn drwy'r system.
- Asesiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr ymateb.
- Asesiad o'r bylchau o ran gallu a blaenoriaethu'r bylchau hyn.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



Un o'r problemau sylfaenol mewn perthynas â'r rhwydwaith Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol yw'r prinder model ariannu hirdymor clir. Mae hyn yn effeithio ar yr Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol mewn sawl ffordd. Mae ansicrwydd ynghylch ffrydiau ariannu o un flwyddyn i'r llall yn ei gwneud hi'n anoddach recriwtio a chadw staff medrus, yn ogystal ag atal datblygu galluoedd arbenigol mwy newydd sydd eu hangen o fewn yr Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol. O ganlyniad, mae'r adroddiad wedi dod i'r casgliad bod diffyg cynllun ariannu cynaliadwy wedi gwneud y rhwydwaith Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol yn llai effeithiol nag y gallai fod.

Ar hyn o bryd, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid o heddluoedd lleol yn darparu'r rhan fwyaf o'r arian ac yn dal yr Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol i gyfrif. Daw arian ychwanegol o grantiau gan y Swyddfa Gartref a nifer o grantiau bach eraill pan fyddant ar gael. Bu sôn ers nifer o flynyddoedd y byddai'r Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth Ganolog yn hytrach na heddluoedd, ond nid yw hyn wedi digwydd eto drwy'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant am nifer o resymau (y pandemig yn fwy diweddar). O ganlyniad, mae AHGTAEM yn awgrymu bod buddiannau lleol, yn hytrach na bygythiad, perygl a niwed rhanbarthol a chenedlaethol, yn effeithio ar y ffordd y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu o fewn yr Unedau Troseddu Trefnedig Rhanbarthol. Gellid ystyried bod hyn yn groes i'r system genedlaethol Pennu Tasgau Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig newydd.

Mewn ymateb i ddau o'r argymhellion a godwyd o fewn yr adroddiad:

**Argymhelliad 3**

**Erbyn Chwefror 2022, dylai prif swyddogion sy'n gyfrifol am droseddau difrifol a throseddu trefnedig ym mhob rhanbarth, ynghyd â phrif swyddogion yr heddluoedd yr effeithiwyd arnynt, sicrhau bod systemau mewn grym i Uwch Swyddogion Ymchwilio a Swyddogion Cyfrifol Arweiniol gydweithio'n effeithiol.**

Mae heddluoedd yn gyfrifol am reoli troseddu trefnedig gan ddefnyddio'r ymagwedd 4P. Yn Nyfed-Powys, penodir Uwch Swyddog Ymchwilio a Swyddog Cyfrifol Arweiniol (Prif Arolygydd Lifrog Rhanbarthol) i reoli pob Grŵp Troseddu Trefnedig cyn gynted ag y mae'n cael ei fapio a'i sgorio. Er mwyn cyflawni ymagwedd 4P tuag at chwalu neu aflonyddu ar Grŵp Troseddu Trefnedig, dylent wneud hyn fel arfer drwy gydweithio ag asiantaethau partner eraill. Pan mae Grŵp Troseddu Trefnedig yn cael ei ddwysau i'r Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol o wasanaeth heddlu ar gyfer ymchwiliad, bydd yr uned yn pennu Uwch Swyddog Ymchwilio. Mae'r Uwch Swyddog Ymchwilio'n penderfynu

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

web www.dyfedpowys-pcc.org.uk twitter DPOPCC facebook dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
gwefan www.dyfed-powys.pcc.police.uk trydar DPOPCC facebook dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

Ffôn: Tel: 01267 226440
Ffacs: Fax: 01267 226448
E-bost: Email: opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

ar y tactegau ymchwilio priodol i chwalu/aflonyddu ar y Grŵp Troseddu Trefnedig. Fodd bynnag, mae'r Grŵp Troseddu Trefnedig dal yn aros gyda'r Swyddog Cyfrifol Arweiniol yn yr heddlu, sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun 4P. Mewn perthynas â'r argymhelliad yn benodol, mae Dyfed-Powys bob amser wedi cynnal perchnogaeth gyffredinol o unrhyw Grŵp Troseddu Trefnedig Dyfed-Powys y mae'r Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol yn darparu Uwch Swyddog Ymchwilio ar ei gyfer, ac maen nhw dal yn cael eu monitro drwy gyfarfodydd misol Pennu Tasgau Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig a Grŵp Datblygu Gwybodaeth yr Heddlu. Gan fod perthynas waith dda gyda'r Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol gan yr heddlu mae'r Uwch Swyddog Ymchwilio a'r Swyddog Cyfrifol Arweiniol yn parhau i gydweithio er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol mewn perthynas â mynd i'r afael â'r Grŵp Troseddu Trefnedig.

Yn 2019, trefnwyd hyfforddiant Swyddog Cyfrifol Arweiniol penodol a'i gyflwyno'n rhanbarthol i'r tri heddlu yn ne Cymru gan gydweithiwr o'r Swyddfa Gartref. Roedd yr hyfforddiant fod cael ei gynnal eto yn 2020, ond yn anffodus, nid oedd hyn yn bosibl oherwydd y pandemig, cadernid gweithredol a'r cyfyngiadau ar gyflwyno hyfforddiant. Y gobaith yw y bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno'n rhanbarthol eto wrth i'r cyfyngiadau lacio yn 2021. Yn Nyfed-Powys, yn absenoldeb unrhyw hyfforddiant ffurfiol, rhoddir canllawiau penodol i Swyddogion Cyfrifol Arweiniol i'w cynorthwyo â'u rôl, a chynhelir mentora anffurfiol rhwng Swyddogion Cyfrifol Arweiniol mwy profiadol a rhai llai profiadol. Mae Swyddfa Gudd-wybodaeth yr Heddlu hefyd yn cynorthwyo o ran cyflwyno hyfforddiant anffurfiol un i un pan mae Swyddogion Cyfrifol Arweiniol newydd yn cael eu penodi.

**Argymhelliad 4**

**Erbyn Chwefror 2022, dylai'r prif gwnstabl sy'n arwain ar droseddau difrifol a throseddu trefnedig ym mhob rhanbarth, ynghyd â phrif swyddogion yr heddluoedd sydd wedi'u heffeithio, sicrhau bod prif swyddog yn cael ei benodi gyda chyfrifoldeb ar gyfer pob Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol, hyd y bo'n ymarferol gan weithio'n ymreolaethol o gyfrifoldebau'r heddlu.**

Bydd cyflwyno ymagwedd Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig system gyfan yn mynnu bod bygythiad, perygl a niwed yn cael eu rheoli ar bob un o'r lefelau llywodraethu. Bydd rheoli bygythiad a pherygl fel hyn yn sicrhau bod blaenoriaethu'n gyson â'r perygl a aseswyd a bod dwysau a dad-ddwysau risg yn deg ar draws y system. Cyflawnir hyn drwy ailddiffinio rolau a chyfrifoldebau fforymau pennu tasgau cyfredol a

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

thrwy greu rôl ranbarthol Cydlynydd Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig (Prif Swyddog).

Mae’r tîm cenedlaethol Pennu Tasgau System Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig yn cynnig mai’r Cadeirydd Cydlynu a Phennu Tasgau Rhanbarthol fydd y Cydlynydd Rhanbarthol Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig. Bydd yn cael yr awdurdod gweithredol gan yr holl brif swyddogion rhanbarthol i bennu tasgau, cydlynu a chyfeirio holl adnoddau Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig ar y lefel ‘Gallu Arbenigol’ sy’n cael eu dal mewn plismona ar draws y rhanbarth yn erbyn y bygythiadau Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig sydd wedi’u nodi a’u hasesu. Mae gan sawl Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol Brif Swyddog penodol yn barod sy’n ymreolaethol o gyfrifoldebau heddlu ac sy’n arweinydd penodol ar gyfer Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig a materion rhanbarthol eraill megis gwrthderfysgaeth. Nid yw hyn wedi’i gytuno o fewn rhanbarth De Cymru eto. Gan mai Heddlu De Cymru yw’r heddlu arweiniol ar gyfer yr Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol Tarian, mae HDC bob amser wedi penodi PGC i gael goruchwyliaeth o’r Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol, ond nid yw’n Brif Swyddog arweiniol penodol. O fewn yr adroddiad archwilio diweddar, argymhellodd AHGTAEM y byddai’n arfer da i bob Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol gael uwch swyddog penodol ar gyfer cyfrifoldebau rhanbarthol. O ganlyniad, bydd angen i’r tri heddlu yn ne Cymru benderfynu pa un ai a ydynt eisiau penodi Prif Swyddog penodol i oruchwylio rhediad dyddiol yr Uned Troseddu Trefnedig Ranbarthol. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Grŵp Prif Swyddogion Cymru ar 5 Mawrth 2021. Does dim penderfyniadau wedi’u gwneud hyd yn hyn, a bydd y mater hwn yn destun trafodaethau pellach gan Brif Swyddogion. Bydd PGC HDC yn parhau i gadeirio pennu tasgau a’r bwrdd goruchwylio yn y cyfamser.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: Y Prif Gwnstabl Dros Dro Claire Parmenter

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.

**web** www.dyfedpowys-pcc.org.uk **twitter** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner
**gwefan** www.dyfed-powys.pcc.police.uk **trydar** DPOPCC **facebook** dyfedpowyspoliceandcrimecommissioner